

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Dyddiad | Date: 22 Gorffennaf 2020

Pwnc | Subject: **Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)** – gwybodaeth ariannol

Annwyl Kirsty,


Ar **20 Gorffennaf 2020**, gwnaethom gymryd tystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a'r Consortia Addysg Rhanbarthol at ddibenion llywio ein gwaith craffu ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yng Nghyfnod 1.

Yn ystod y sesiwn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, dywedodd cynrychiolwyr llywodraeth leol wrthym y byddent yn anfon y wybodaeth ariannol ddiweddaraf atoch er mwyn llywio'r asesiad effaith rheoleiddiol ar y Bil. Gwnaethant egluro y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno erbyn dechrau mis Medi 2020, ac y byddai'n cynnwys—ymhlith pethau eraill—asesiad o effaith COVID-19 ar gostau sy'n gysylltiedig â'r Bil, ynghyd â brasamcanion o gostau ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf.

Rydym yn ymwybodol, fel mater o drefn, y bydd fersiwn ddiwygiedig neu fersiynau diwygiedig o'r Memorandwm Esboniadol yn cael eu cyhoeddi yn ystod taith y Bil drwy'r Senedd. Fodd bynnag, o ystyried y cyd-destun cyfredol, sy'n un newidiol, byddem yn gwerthfawrogi diweddariadau rheolaidd ynghylch y wybodaeth ariannol sydd ar gael i chi, ac ynghylch eich dealltwriaeth o oblygiadau ariannol y Bil.

Er gwybodaeth, rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, o ystyried y gwaith sydd ar y gweill gan y Pwyllgor hwnnw ar oblygiadau ariannol y Bil.

Yn gywir,



Lynne Neagle AS
Cadeirydd

copi at: Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddPPIA@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddCYPE@senedd.wales

 0300 200 6565